

## A7 – Llythyrau cymeradwyaeth gan rieni ar gyfer cwrs ar-lein UYC

“Wedi rhyfeddu bod ysgol y plentyn wedi tanysgrifio er mwyn i holl rieni/perthnasau disgyblion gael mynediad at gwrs *Solihull Approach*...

... Mae'r cyfan am gydnabod emosiynau ynoch chi eich hun ac yn eich plentyn, yn ogystal â deall sut maent yn cael effaith ar ymddygiadau yn hytrach na'r hen ffordd o ganmol ymddygiadau da ac anwybyddu ymddygiadau gwael. Mae'n cydnabod bod angen rhoi sylw i ymddygiadau sy'n ymddangos yn wael hefyd, oherwydd mae'n bosibl mai straen / anhapusrwydd / gorbryder yw'r achos ac ni ddylid anwybyddu'r pethau hyn – dylid eu cefnogi...

...Yr allwedd i leihau ymddygiadau “gwael” yw deall eich plentyn fel unigolyn a'r sbardunau emosiynol a sut y gallwch weithio ag ef i'w rheoli. Hwrê! Diolch, *St Nicks*... rydych chi wedi arbed £40 i mi ac wedi rhoi sicrwydd i mi fy mod yn defnyddio'r ymagwedd gywir 😊🙏...

...mae ar-lein, dim ond 11 modiwl y byddwch yn gwrando arnynt/eu gwyllo, gyda 4/5 diwrnod rhwng pob un ac mae'r cyfan yn LLAWN gwybodaeth...

...waw... mae'n teimlo fel moment “un cam bach ymlaen”! ...Mae adran am ddatblygiad plentyn rhwng 0 a 3 blwydd oed ar y dechrau ac mae'n nodi pethau nad oeddwn i'n gwybod amdanynt er fy mod i wedi dysgu am fabanod yn troi eu pennau i wneud cysylltiadau niwronau. Mor dda.”

Jen H, Alcester.

“Wedi mwynhau'r cwrs hwn yn fawr! Y £39 gorau i mi erioed ei wario!”

“Mae hyn wedi bod yn brofiad gwerthfawr a fydd, mewn ffordd, yn effeithio ar sawl agwedd ar fy mywyd”

“Mae'r cwrs hwn wedi bod yn rhodd hollol amhrisiadwy i mi. Mae wedi, a bydd, yn newid cymaint o agweddau ar fy mywyd. Heb os, rydw i'n rhiant gwell ac yn berson mwy cyflawn o ganlyniad. Mae rhai agweddau wedi bod yn fomentau ‘Eureka’ i mi! Petawn i OND yn gwybod hyn i gyd flynyddoedd yn ôl”

“Gwnaeth cwrs *Solihull Approach* ei gwneud yn glir nad oes angen gwersi ar rieni: mae bywyd beunyddiol yn rhoi digon o'r rheini. Beth sydd ei angen arnom yw'r cyfle i sefyll yn ôl ac arsylwi ar ein plant. Mae angen rhywfaint o arweiniad strwythuredig i'n helpu i fyfyrwyr ar yr holl ffactorau sy'n peri iddynt ymddwyn yn y ffordd a wnânt; rhai yn ddatblygiadol a rhai yn amgylchiadol.”

“Rydw i wedi gweld bod y cwrs ar-lein hwn yn ddefnyddiol iawn. Nawr, rydw i'n treulio amser yn meddwl yn fwy yn ystod sefyllfaoedd anodd ac yn ystod anghydfodau â'm plant.”

“Nid yw'n gweithio bob amser ond, fesul cam, rydym yn gweithio at gartref llai gwrthdrawiadol!”

“Rydw i'n hoff iawn o'r cwrs rhianta ar-lein – ardderchog!”

“Cwrs rhagorol, gyda llaw. Wedi mopio arno!” Gus W

“Mae'n gwrs cwbl ardderchog. Ac mae'n ffordd wych o addysgu pob un ohonom i gymryd saib a cheisio gweld beth sydd y tu ôl i'r ymddygiad yn hytrach nag ymateb i'r ymddygiad. Mae'n berthnasol i gydweithwyr / ffrindiau / pobl rydym yn eu hadnabod yn ogystal â'n plant! Mae pawb ar ei ennill.” Ellie C.